**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**26 HYDREF 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 26 Hydref 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Arnold Woolley (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mel Buckley, Tina Claydon, Gladys Healey, David Mackie, Debbie Owen a Linda Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Jean Davies a Hilary McGuill

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Dave Hughes a Paul Cunningham

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Antony Wren (dros Marion Bateman) a Linda Thew (dros Carol Ellis)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch-Reolwr Oedolion; Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu; Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu; Rheolwr Cyllid Strategol; Rheolwr Cyllid Strategol - Cyfrifyddu Rheoli a Phrif Gyfrifydd.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 25. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 26. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyd-gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2023 gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a chawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Dave Mackie a Gladys Healey.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2023, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Debbie Owen a Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 27. RHAGLEN WAITH AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd y rhaglen waith gyfredol gan ddweud y bu anawsterau o ran trefnu dyddiad ar gyfer y cyfarfod gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a bod cyfarfod ym mis Ionawr yn awr yn cael ei ystyried ac y byddai'n cael ei gadarnhau'n fuan. Yn ychwanegol at yr eitemau eraill ar 7 Rhagfyr byddai hefyd fideo gan Double Click i roi diweddariad i'r aelodau. Dywedodd bod adroddiad ar

Leoliadau y Tu Allan i'r Sir wedi'i restru'n amodol fel eitem ar gyfer y cyfarfod ar 6 Mehefin yn dilyn cais gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant. Opsiwn arall, yn ôl disgresiwn y Pwyllgor, fyddai cyflwyno'r adroddiad i'r cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor sydd i'w gynnal ar 27 Mehefin.

Dywedodd y Cynghorydd Mackie, oherwydd bod y ddau gyfarfod yn cael eu cynnal ym mis Mehefin, y byddai'n briodol i'r eitem fynd gerbron y cyd-gyfarfod ar 27 Mehefin. Cytunodd yr hwylusydd y byddai hyn yn cael ei ychwanegu at raglen y Cyd-bwyllgor.

Dywedodd yr Hwylusydd bod y gweithdy sydd i'w gynnal yng Nghanolfan Westwood yn debygol o gael ei drefnu ar gyfer mis Ionawr ynghyd ag adroddodd ar y camau gweithredu a olrheiniwyd fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd David Mackie a'u heilio gan y Cynghorydd Debbie Owen.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Waith yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu nad ydynt wedi'u cwblhau eto.

## 28. CYLLIDEB 2024/25 – CAM 2

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol yr adroddiad a oedd â'r nod o adolygu a gwneud sylwadau ar y pwysau ar y gyllideb a'r gostyngiadau mewn costau sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor. Rhoddodd gyflwyniad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses o Osod Cyllideb 2024/25 a oedd yn rhoi sylw i'r materion canlynol:

- pwrpas a chefndir
- gofynion cyllidebol ychwanegol y Cyngor 2024/25
- gofynion cyllidebol ychwanegol - risgiau parhaus
- y sefyllfa gyffredinol ar ôl y datrysiadau cychwynnol
- crynodeb a chasgliadau
- y camau nesaf yn y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2024/25
- Proses gosod y gyllideb - Cam 2
- Proses gosod y gyllideb - Cam 3 (Terfynol).

Aeth yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu, Uwch Reolwr Gwasanaethau Integredig - Swyddog Arweiniol Oedolion, Uwch Reolwr - Plant a'r Gweithlu a'r Prif Gyfrifydd (Gwasanaethau Cymdeithasol) ymlaen a'r cyflwyniad a oedd yn rhoi sylw i'r pwyntiau canlynol:

- Pwysau Costau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol; a
- Gostyngiadau i Gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofynnwyd i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu adolygu'n drylwyr bwysau costau portffolios, opsiynau effeithlonrwydd a'r risgiau cysylltiedig, a nodi unrhyw feysydd ychwanegol lle gellid o bosibl gwireddu effeithlonrwydd costau. Byddai crynodeb o ganlyniadau'r sesiynau hyn yn cael ei adrodd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ym mis Tachwedd, a fydd yn agored i bob Aelod. Ar ôl derbyn y setliad dros dro ar 20 Rhagfyr, bydd yn ofynnol i gyfarfodydd Trosolwg a Chraffu mis Ionawr ystyried y gostyngiadau cyllidebol pellach y bydd eu hangen i lenwi'r bwlch sy'n weddill yn y gyllideb os yw'r Cyngor am fodloni ei rwymedigaeth statudol i osod cyllideb gyfreithiol a mantoledig ym mis Chwefror 2024.

Gofynnodd y Cynghorydd Linda Thew ynghylch nifer y plant sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r sir Eglurodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) bod y term 'y tu allan i'r sir' yn cyfeirio at y plant y mae'r awdurdod yn comisiynu gofal ar eu cyfer y tu allan i ddarpariaeth y sir ei hun. Roedd nifer o blant yn byw mewn cartrefi gofal preswyl yn sir y Fflint sy'n cael eu dosbarthu fel bod yn cael gofal 'y tu allan i'r sir' oherwydd nad yw'r gefnogaeth ar eu cyfer yn cael ei darparu gan y sir ei hun. Roedd 37 o blant ar hyn o bryd mewn gofal preswyl sydd ddim yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol ond yn hytrach yn cael ei gomisiynu. Nid yw hyn yn golygu eu bod yn cael cefnogaeth y tu allan i ffin ddaearyddol Sir y Fflint. Roedd yna hefyd 32 o blant yn cael eu cefnogi gan asiantaethau maethu annibynnol. Mae'r gyllideb Y Tu Allan i'r Sir o safbwynt gofal cymdeithasol yn cefnogi 69 o blant bob wythnos gyda chosau costau addysgol ar ben hynny.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Thew hefyd at gost y swyddi Uwch Weithwyr Cymdeithasol newydd a gofynnodd am ddadansoddiad o gyfrifoldebau'r rôl. Mewn ymateb, cyfeiriodd yr Uwch Reolwr, Diogelu a Chomisiynu at yr Adolygiad o Weithwyr Cymdeithasol a'r pwysau ychwanegol yr oedd hyn wedi'i greu. Eglurwyd nad yw'r pwysau'n berthnasol i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a bod niferoedd gweithwyr cymdeithasol profiadol wedi aros yr un fath. Roedd y newidiadau'n gysylltiedig â chyflwyniad y radd Uwch Weithiwr Cymdeithasol newydd gyda 12 swydd yn y Gwasanaethau Plant, 16 yn y Gwasanaethau Oedolion, ac 1 mewn Diogelu - cyfanswm o 29. Roedd cyflwyniad y radd CO7 newydd hon wedi arwain at newidiadau i'r graddfeydd uwchben hynny ac eglurwyd bod Uwch Ymarferwyr wedi dod yn Ddirprwy Reolwyr Tîm ac wedi mynd i fyny un radd i GO8 gydag 17 yn y Gwasanaethau Plant, 12 yn y Gwasanaethau i Oedolion ac 1 mewn Diogelu - cyfanswm o 31. Roedd yr un broses yn berthnasol i Reolwyr Tîm o oedd wedi newid i radd GO9 gydag 8 yn y Gwasanaethau Plant, 9 yn y Gwasanaethau i Oedolion a dim newidiadau mewn Diogelu - cyfanswm o 17. Dyma oedd y rheswm dros y pwysau.

Gofynnodd y Cynghorydd Thew faint o blant oedd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) bod 63 o Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig ar hyn o bryd.

Yn ystod trafodaeth ar yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Gwydn, yn cynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael) at y trydydd argymhelliad a gofynnodd a ddylid newid hwn ychydig er mwyn i'r Aelodau gael cyflwyno unrhyw syniadau ar feysydd lle gellid gwneud arbedion ar ôl y cyfarfod.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod y broses o osod y gyllideb ar y gweill a bod cyfleoedd i wneud awgrymiadau'n cael eu cynnwys. Ychwanegodd bod swyddogion yn barod i dderbyn syniadau ar unrhyw adeg.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid newid yr argymhelliad cysylltiedig ag effeithlonrwydd i "bod y Pwyllgor yn cynghori nad oedd unrhyw feysydd o effeithiolrwydd cost wedi'u dynodi ar y cam hwn."

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Dave Mackie a'u heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y dylid nodi'r pwysau costau ar bortffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol;

(b) Y dylid nodi opsiynau lleihau cyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a

(c) Bod y Pwyllgor yn cynghori nad oes unrhyw feysydd o effeithiolrwydd cost wedi'u dynodi ar y cam hwn.

## 29. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu adroddiad yn egluro bod dyletswydd ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyflwyno eu hadroddid blynyddol i'w Pwyllgor Craffu ac y byddai unrhyw adborth a geir heddiw'n cael ei anfon i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar eu rhan. Dywedodd bod hyn yn rhan o'r gofyniad o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi trosolwg i bob asiantaeth partner a Llywodraeth Cymru o waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ei weithgaredd yn ystod y flwyddyn a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dywedodd bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei rôl ei hun o ran rhannu cyfeiriad clir ar gyfer datblygiad gwasanaeth o safbwynt integreiddio iechyd a gofal chymdeithasol er mwyn sicrhau lles eraill.

Cyfeiriodd at bwyntiau allweddol yn adran 3 o'r adroddiad llawn a oedd wedi'i atodi i'r papurau

- Cod Ymarfer Awtistiaeth
- Cyfalaf
- Rhaglen Plant a Phobl Ifanc
- Rheolwr
- Llwybr Safonau Gofal Dementia (Cymru Gyfan)
- Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu
- Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad
- Asesiad o Anghenion y Boblogaeth
- Cronfa Integreiddio Rhanbarthol.
- Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant
- Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl
- Gweithlu

Gofynnodd y Cynghorydd Healey am faint yr oedd yn rhaid i blant aros cyn gweld ymgynghorydd ynglŷn â'u hiechyd meddwl, a dywedodd hefyd ei bod yn bryderus a fyddai plant sy'n cael prydau ysgol yn cael pryd o fwyd pe baent yn cael eu hanfon adref, e.e. oherwydd llifogydd. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu nad oedd y data wrth law ganddi ynghylch amseroedd aros am wasanaethau iechyd plant a phobl ifanc ond y byddai'n gwneud ymholiadau. Eglurodd hefyd bod darpariaeth prydau ysgol am ddim yn rhan o'r gwaith sy'n cael ei fwydo i mewn i'r adroddiad sefydlogrwydd y farchnad a bod asesiad o anghenion y boblogaeth yn ystyried niferoedd prydau ysgol am ddim hefyd, sydd yn helpu gyda chynllunio. Dywedodd bob pob Asiantaeth Partner yn gyfrifol am ei waith ei hun yn ogystal â gwaith ar y cyd a bod Sir y Fflint wedi gweithio'n galed i gefnogi unigolion sy'n dibynnu'n drwm ar y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim. Dywedodd er bod nifer fawr o ysgolion wedi cau'n ddiweddar oherwydd llifogydd, y cawsant eu cau'n fwriadol ar ôl 1pm fel bod y plant yn cael cinio.

Awgrymodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) y dylid holi BIPBC y y tro nesaf y bydd cyfarfod ynghylch amseroedd aros i weld ymgynghorydd i blant ag anghenion iechyd meddwl. Cyfeiriodd hefyd at adran 3.12 yr adroddiad ynglŷn â'r rhaglen trawsnewid iechyd meddwl a chanmolodd y canolbwyntiau cymunedol a fu'n llwyddiannus mewn helpu pobl i gefnogi eu hunain. Roedd hefyd eisiau gwneud y pwyllgor y ymwybodol fod Sir y Fflint yn arwain ar werth cymdeithasol aa bod hyn yn dal i fod yn rhan allweddol o ymdriniaeth Sir y Fflint. Dywedodd mai'r Grŵp Rhanbarthol y cyfeirir ato yn yr adroddiad yw'r unig un yng Nghymru sydd wedi bod ar waith ers tua 3 - 4 blynedd erbyn hyn ac mai Cyngor Sir y Fflint oedd yn ei gadeirio

Gofynnodd y Cynghorydd Thew os yw cost BPRhGC yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y 6 Sir a faint mae Sir y Fflint yn ei dalu Dywedodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu nad yw pob taliad yr un fath a'u bod yn seiliedig ar y fformiwla ariannu ar gyfer awdurdodau lleol, felly roedd y cyfraniadau'n amrywio ond roedd yna hefyd gyfraniadau gan asiantaethau partner allweddol eraill, nid dim ond y 6 awdurdod lleol. Dywedodd bod Sir y Fflint fel arfer yn talu £123,000 y flwyddyn ond y cafwyd gostyngiad o £50,000 ac mai'r taliad yn 23/34 oedd £73,000, ond y bydd y tâl o bosibl yn mynd yn ôl i fyny i £123,000. Dywedodd bod cyfeiriad at hyn yn y papurau ar effeithlonrwydd cyllidebol.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn un o ofynion Llywodraeth Cymru a'i fod hefyd yn fuddsoddiad o ran amser ac adnoddau swyddogion, gan fod llawer o swyddogion yn eistedd ar lawer o gyfarfodydd.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach gan y Cynghorydd Thew, ymddiheurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) os oedd wedi ei chamarwain gan egluro fod pob rhanbarth wedi bod â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ers 4 - 5 blynedd a'r hyn yr oedd wedi'i ddweud oedd nad oes gan bob ardal Fforwm Cymdeithasol gweithredol, sydd yn wahanol, ond bod disgwyl yn awr i bob ardal yng Nghymru fod ag un â'u bod yn dal i fyny efo Sir y Fflint. Awgrymodd hefyd y dylai ei sylwadau ynghylch fformiwla Barnett sy'n cosbi Sir y Fflint ac i bob pwrpas yn cynyddu Treth y Cyngor yn cael effaith ar breswylwyr Sir y Fflint gan fod yn rhaid iddynt deithio i ysbytai y tu allan i'r sir, sy'n ei gwneud yn

anodd i rai fynd i apwyntiadau ac ymweld â chleifion, fod yn gwestiwn arall y dylid ei ofyn i BIPBC pan maen nhw’n cyfarfod nesaf.

Cafodd yr argymhelliad cyntaf ei ddiwygio ar gais y Cadeirydd a chafodd hyn ei gynnig gan y Cynghorydd Gladys Healy a’i eilio gan y Cynghorydd Mel Buckley. Cynigiwyd yr ail argymhelliad gan y Cynghorydd Gladys Healey a’i eilio gan y Cynghorydd Linda Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Aelodau’n nodi cymhlethdod, ehangder a dyfnder y gwaith y mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud; a

(b) Bod yr Aelodau’n nodi'r cynnydd yn 2022/23 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## 30. AELODAU O’R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.22pm)

……………………………….
**Y Cadeirydd**